Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod: Bwrdd Plismona**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda SCHTh**
**Dyddiad: 9 Mai 2017**
**Amser: 14:00 – 16:15**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Mr Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (HT)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>PC Stuart Davies, Cwnstabl (SD)<br>Mr. Steve Bergiers, Uwch Reolwr Iechyd a Diogelwch (SB)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU AR GYFER CYFARFOD 24/04/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2147** | **Yr heddlu i gysylltu â Dylan Davies mewn perthynas ag egluro'r pwyntiau Cynllun Gweithlu a godwyd gan y CHTh yng nghyfarfod BAH ym mis Ebrill.** | **Cyfredol – rhaglen gweithlu i'w rhannu yn gynnar ym mis Mehefin** |
| **PB 2148** | **AE i siarad â swyddog y wasg mewn perthynas â lluniau stoc archif swyddogion a chynnwys yr ASP yn y trafodaethau hyn.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2149** | **Y PG a'r CHTh i gwrdd â Steve Harvard i drafod system yr heddlu.** | **Cyfredol – cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mai** |
| **PB 2150** | **AE i geisio trosolwg o'r costau.** | **Cyfredol – AE i fynd ar ôl y Prif Arolygydd P Jones am y ffigurau diweddaraf** |
| **PB 2152** | **Y CHTh, Alison Perry ac Irene Davies-Jones i drafod y cyfle ar gyfer secondiad gyda'r Bwrdd** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | |
| **PB 2153** | **Y CHTh, Alison Perry ac Irene Davies-Jones i drafod y cyfle ar gyfer secondiad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **Cyfredol** |
| **PB 2154** | **Yr heddlu i edrych i mewn i'r achos penodol a drafodwyd.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2155** | **SR i gynnig y gallai'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys nesaf adolygu achosion o'r fath.** | **Cwblhawyd** |

**Cam gweithredu: CHTh i ymgysylltu â'r PSA mewn perthynas â chipio data arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu.**

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 09/05/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 30** | **Cymeradwyo Adroddiad Tendr Sengl ar gyfer prosiect ystadau HDP.** | **CY** |
| **PB T2 31** | **Cymeradwyodd y Bwrdd benderfyniad mewn perthynas â phrosiect ystadau HDP.** | **CY** |
| **PB T2 32** | **Penderfynodd y Bwrdd yn erbyn rhoi £3000 i'r Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs' yn 2017.** | **PSA** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 24 Ebrill a materion yn codi

Agorodd y cyfarfod â chydnabyddiaeth o ymweliad y PG ag adrannau morol Dyfed-Powys.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar faterion gweithredol, gan gynnwys unigolyn coll perygl uwch, achos cam-drin rhywiol hanesyddol, a throsedd dreisgar. Tynnodd y PG sylw'r Bwrdd at y lefel barhaus o achosion hunan niweidio a hunanladdiad.

Diweddariad Sefydliadol

Dywedodd y PG bod 4 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y PG wrth y Bwrdd bod Taith y Prif Swyddogion wedi ymweld â Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a bod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn gan swyddogion a staff.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cenedlaethol

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd y byddai'n mynychu cyfarfod Bwrdd CCHTh ym Mirmingham yr wythnos nesaf.

Lleol

Dywedodd y CHTh bod y Bwrdd Ymchwil wedi'i gynnal yr wythnos flaenorol. Ceisiodd y CHTh gymeradwyaeth y Prif Gwnstabl i ymgymryd ag arolwg byr ymysg staff i bennu pa unigolion sy'n cynnal astudiaethau academaidd. Rhannodd y CHTh ei fwriad i gynnal seminar yn ddiweddarach yn y flwyddyn lle y gall unigolion o fewn y sefydliad gyflwyno canfyddiadau eu hymchwil academaidd.

Hysbysodd y CHTh y Bwtdd y byddai sawl llythyr yn cael ei gyfeirio o SCHTh i'r Heddlu mewn perthynas ag achosion cwynion etifeddiaeth.

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd am erthygl yn y cyfryngau mewn perthynas â chau gorsafoedd heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag oriau agor gorsafoedd heddlu. Gofynnodd y CHTh pa un ai a allai nodyn atgoffa gael ei anfon at staff er mwyn sicrhau bod gohebiaeth i gymunedau'n cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i ymgysylltu â'r Swyddog Amrywiaeth mewn perthynas â gohebiaeth gan yr Heddlu'n glynu wrth Safonau'r Gymraeg.**

Hysbysodd SR y Bwrdd bod gohebiaeth wedi'i dderbyn gan y Coleg Plismona yn ceisio Arweinwyr Hyrwyddo Tystiolaeth yr Heddlu.

**Cam gweithredu: SR i anfon yr ohebiaeth ymlaen at AE gyda golwg ar yr Heddlu'n adnabod cynrychiolydd.**

## 5. Ffocws Misol y Bwrdd Plismona: Iechyd a Diogelwch

Cyflwynodd Steve Bergiers fideo dwy funud o hyd a oedd yn cynnwys Ystadegau Iechyd a Diogelwch Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17. Cafwyd trafodaeth fer ar ôl i'r fideo orffen.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i ymgysylltu â Swyddog Cyswllt Ysgolion mewn perthynas â hysbysu pobl ifainc am ganlyniadau poeri ar Swyddogion Heddlu.**

Rhoddodd SB gyflwyniad ar Iechyd a Diogelwch ar draws yr amrywiol adrannau gan gynnwys hyfforddiant, ystadau a chydymffurfiaeth. Trafododd SB archwiliad sydd ar fin cael ei gynnal mewn perthynas â chydymffurfiaeth HDP ag Iechyd a Diogelwch, a'r archwiliad mewn o bob dalfa. Ceisiodd y CHTh sicrwydd ynghylch rhai o'r polisïau Iechyd a Diogelwch y mae gan HDP gyfradd gydymffurfio mewn perthynas â nhw.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chydymffurfiaeth ystadau, a dangosodd SB graff i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys rhestr o ofynion y mae angen i holl ystadau HDP lynu wrthynt. Hysbysodd y CY Y Bwrdd am gynllun gwella i ganolbwyntio ar bob mater perygl uwch o safbwynt iechyd a diogelwch.

Gadawodd CM y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynghylch hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ledled yr Heddlu. Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at nifer o staff sy'n derbyn hyfforddiant ar bynciau amrywiol a holodd y PG sut mae rhifau HDP yn cymharu â heddluoedd eraill. Cytunwyd y byddai cynllun hyfforddi gyda chostau cysylltiedig yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ym mis Mehefin 2017.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i roi cynllun hyfforddiant wedi'i flaenoriaethu i'r Bwrdd mewn 4-6 wythnos, gan gynnwys y costau llawn.**

Cyflwynodd y CY ddiweddariad diogelwch tân i'r Bwrdd. Holodd y CHTh ynghylch rhai agweddau o ddiogelwch tân o fewn HDP a derbyniodd ddiweddariadau gan y CY a SB. Dywedodd y CHTh ei fod yn dawel ei meddwl yn dilyn y diweddariadau.

**6. Materion i'w hystyried**

**a. Polisi Penderfynu**

Derbyniodd y CHTh a'r PG y polisi a chytunwyd y byddai'n cael ei adolygu'n flynyddol.

**b. Portffolio Plismona Digidol**

Nodwyd y Portffolio Plismona Digidol.

**c. Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs'**

Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod £3000 wedi'i roi yn 2016 i'r Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs'.

**Penderfyniad: Penderfynodd y Bwrdd yn erbyn rhoi £3000 i'r Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs' yn 2017.**

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

**a. Ystadau**

Cyflwynwyd Adroddiad Tendr Sengl i'r Bwrdd am becyn ystadau gwaith brys ar gyfer diweddaru'r cyflenwad pŵer mewn gorsaf yn Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ystadau mai Western Power oedd yr unig gyflenwr a oedd yn medru darparu'r diweddariad i'r cyflenwad pŵer ac y byddai'n fwy cost effeithiol iddynt ymgymryd â'r pecyn gwaith llawn. Cytunwyd ar y pecyn gwaith.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd gwobrwyo'r pecyn gwaith brys ar gyfer diweddaru'r cyflenwad pŵer mewn gorsaf yn Sir Gaerfyrddin i Western Power.**

Cyflwynwyd nifer o ddogfennau i'r bwrdd o'n hymgynghorwyr eiddo a'n ymgynghorwyr cyfreithiol yn darparu cyngor annibynnol mewn perthynas â gwerthu Parc y Brodyr. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ystadau bod rhinweddau perthynol pob cais a dderbyniwyd, yr amodau ynghlwm gan y cynigwyr i'r gwerthiant a'r peryglon sy'n gysylltiedig â phob dewis wedi'u hystyried yn fanwl. Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig mwyaf cost effeithiol sydd â'r lleiaf o risg, yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Ystadau. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyllid yr Heddlu ei fod wedi cynnal gwiriadau diwydrwydd dyledus mewn perthynas â gwerthu Parc y Brodyr. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ystadau y byddai'n cynghori'r cynigydd llwyddiannus am y canlyniad ar ôl y cyfarfod Bwrdd.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh yr argymhelliad a awgrymwyd mewn perthynas â gwerth Parc y Brodyr.**

**b. Cynllun 'Walk the Walk'**

Hysbysodd y DBG y Bwrdd am lansiad arfaethedig cynllun cerdded 'Walk the Walk' i gyd-fynd â lansio'r arolwg staff. Byddai'r cynllun 'Walk the Walk' yn dod â staff a chydweithwyr at ei gilydd i roi cyfle i godi arian ar gyfer elusen.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyflwyno Cynllun Cadetiaid yr Heddlu mewn lleoliadau eraill.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 09/05/17 | | |
|---|---|---|
| **I'w symud** | **I'w symud yn ei flaen gan** | **I'w symud yn ei flaen** |

| yn ei flaen gan | | gan |
|---|---|---|
| PB 2156 | CHTh i ymgysylltu â'r PSA mewn perthynas â chipio data arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu. | CHTh |
| PB 2157 | Yr Heddlu i ymgysylltu â'r Swyddog Amrywiaeth mewn perthynas â gohebiaeth gan yr Heddlu'n glynu wrth Safonau'r Gymraeg. | PG |
| PB 2158 | SR i anfon yr ohebiaeth ymlaen at AE gyda golwg ar yr Heddlu'n adnabod cynrychiolydd. | SR |
| PB 2159 | Yr Heddlu i ymgysylltu â Swyddog Cyswllt Ysgolion mewn perthynas â hysbysu pobl ifainc am ganlyniadau poeri ar Swyddogion Heddlu. | PG |
| PB 2160 | Yr Heddlu i roi cynllun hyfforddiant wedi'i flaenoriaethu i'r Bwrdd mewn 4-6 wythnos, gan gynnwys y costau llawn. | PG |